

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Hydref (12 mis)

Disgrifiad o'r modiwl:

Os ydych yn gweithio gyda phlant neu bobl ifanc ac am wneud cynnydd yn broffesiynol ac yn academiaidd, yna mae'r modiwl hwn i chi. Bydd y modiwl hwn sydd ar lefel meistr yn eich helpu i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r syniadau sy'n dylanwadu ar ymarfer cyfredol; dadansoddi newidiadau sefydliadol a pholisi; ac archwilio'r hyn y mae bod yn ymarferwr myfyriol a beirniadol yn ei olygu. Mae'r modiwl hwn yn berthnasol i waith mewn ystod eang o wasanaethau gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys gofal plant, addysg, gofal iechyd, gwaith cymdeithasol a gwaith ieuencid - ac mae'n cwmpasu'r ystod oedran gyfan o'r blynyddoedd cynnar i ieuencid.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd uwch ar lefel meistr o leiaf, ac, yn ddelfrydol, ar lefel doethuriaeth mewn disgyblaeth berthnasol
- profiad o addysgu ar lefel meistr, a hynny ar-lein yn ddelfrydol
- gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud yn benodol â gwaith gyda phlant a phobl ifanc, a diddordeb ynddynt
- y gallu i addysgu myfyrwyr gradd meistr a meithrin eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth feirniadol
- parodrwydd i ddilyn y trafodaethau diweddaraf sy'n ymwneud â gwaith gyda phlant a phobl ifanc, a rhoi sylw iddynt
- ymrwymiad i ymgysylltu â chydweithwyr eraill y modiwl mewn gwaith addysgu tîm cydweithredol o fewn tiwtorialau ar-lein
- y gallu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu 'cymuned ymarfer' ac ymgysylltu ar y cyd, a hynny o fewn y tiwtorialau a thîm y modiwl.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o hwyluso deialog a rhyngweithio mewn tiwtorialau ar-lein
- profiad o hwyluso cymorth cyfoedion a chydweithio ar-lein

Manylion y modiwl - gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3